

1 Llandaf i Radur

Cychwyn: Drws y Gorllewin, Cadeirlan Llandaf (cyfeiriad grid ST 155781, côd post CF5 2LA)

Diwedd: Heol Windsor, Radur (cyfeiriad grid ST 130802, côd post CF15 8BQ)

Pellter: 2.5 milltir / 4cm

1. O Ddrws Gorllewin Cadeirlan Llandaf, ewch lan y grisiau a throi i'r dde ar hyd y lôn. Ewch heibio adeilad gwyn, Tŷ Prebendal.
2. Ar ôl rhyw 100 llath (90m) trowch i'r chwith ar hyd y llwybr. Ar ôl 100 llath (90m) mae sedd wedi ei cherfio yn y wal, ac un arall.
3. Trowch i'r chwith ger yr arwydd cyntaf (sydd â Gogledd Llandaf arno). Heb fod ymhell ar y dde, gallwch weld cored Llandaf.
4. Ar ôl 160 llath (150m) mae'r llwybr yn troi yn sydyn i'r chwith ar hyd ffin Clwb Rhwyfo Llandaf.
5. Trowch i'r dde pan gyrhaeddwch chi Heol y Bont. Yn syth wedi'r troad i'r Clwb Rhwyfo, trowch i'r dde eto a dilynwch y llwybr ar lan yr afon.
6. Ymlaen â chi ar hyd y llwybr, gan basio dau ffwrwm ac fe ddowch yn ôl i Heol y Bont.
7. Pan gyrhaeddwch y ffordd, trowch i'r dde.
8. Croeswch y ffordd i fynd i Heol Cwrt Radur. I wneud hynny'n ddiogel, gallwch barhau dros bont yr afon a chymryd y grisiau ar y dde, sy'n arwain i'r tanffordd. Neu gallwch fynd ymhellach at groesfan Zebra.
9. Cerddwch ar hyd Heol Cwrt Radur. Pan fydd y ffordd yn gwyro i'r chwith (Gerddi Taf), ar ôl rhyw 650 llath (600m), ewch yn eich blaen, gyda glan yr afon ar y dde.
10. Ewch yn eich blaen ar hyd y ffordd o dan y bont, gan fynd ychydig i'r chwith lan y goled. Ewch lan y rhiw heibio Tŷ Isaf. Ychydig cyn y rhwystr motobeics trowch i'r llwybr ar y dde.
11. Ewch ymlaen am rhyw hanner milltir (500m).
12. Mae'r llwybr yn mynd i Glôs De Braose.
13. Bron yn syth, trowch i'r dde i fyny'r grisiau (mae'r ffordd yn mynd yn syth ymlaen) ac ewch yn syth yn eich blaen wrth y glwyd fetel nesaf. Byddwch yn cyrraedd Gwarchodfa Natur Lleol Gallt y Meudwy.
14. Pan ddowch chi i gyffordd siâp Y, ewch i'r chwith lan y goled ac ewch ymlaen heibio ffwrwm.

15. Fe ddowch i fwrdd gwybodaeth Coedwig Radur. Trowch i'r dde i Woodfield Avenue.
16. Pan ddowch chi i'r pen, croeswch y ffordd (Heol Isaf) a cherddwch lan Heol Fferm Radur.
17. Ewch yn eich blaen am rhyw 200 llath (180m), a chroesi clos Parc Radur.
18. Ychydig cyn y glwyd a'r gamfa dilynwach y llwybr ar y dde. Croeswch y ffordd, ac ewch yn eich blaen ar hyd Plas y Mynach. Ewch i Rodfa Llantarnam ac yn syth wedyn trowch i Ffordd y Porthmyn.
19. Dilynwch Ffordd y Porthmyn tan iddi droi'n sydyn i'r chwith ac ewch ar hyd y llwybr ar y dde rhwng y tai.
20. Ar y pen mae Heol Windsor. Ewch i'r chwith yma i barhau â chymal nesa'r daith.

2 Radyr i Groesfaen

Cychwyn: Heol Windsor, Radur (cyfeiriad grid ST 130802, côd post CF15 8BQ)

Diwedd: A4119, Groesfaen (cyfeiriad grid ST 070809, côd post CF72 8NW)

Pellter: 4 milltir / 6.5cm

1. Ewch lan Heol Windsor i gyffordd Heol Drysgol.
2. Trowch i'r chwith i Heol Drysgol a mlaen â chi lan y rhiw gan fynd heibio i Glwb Golff Radur ar y chwith.
3. Ewch heibio dwy ffordd i fewn i Dan y Bryn Avenue ar y dde.
4. Ewch heibio Ffordd Las ar eich chwith.
5. Ewch yn eich blaen i Bryn Derwen ac yna cymrwch y tro nesa ar y chwith i Lôn Pant Tawel sy'n croesi'r draffordd.
6. Ewch yn eich blaen yn syth a chroesi lein rheilffordd segur.
7. Ewch yn eich blaen i dir coediog, ar gwr Coedcae Fawr. Mae'r ffordd yn troi'n llwybr ac mae'n rhannu am ychydig.
8. Cymrwch y llwybr is (mae'r un uwch sy'n fwy newydd yn sychach i gerdded arno, ac os ydych yn dewis hwn, cadwch yn agos at y llwybr is).

9. Ar ôl mynd heibio camfa ar y dde, mae'r llwybr yn fforchio. Cymrwch yr un ar y chwith.
10. Ewch i fyny'n syth ar hyd y llwybr nes cyrraedd lân.
11. Ewch ar hyd hon. Mae golygfeydd eang i'r de tuag at Fôr Hafren a thu hwnt.
12. Mae'r lân yn disgyn yn serth i gyffordd. Ewch i'r dde i Heol yr Eglwys. Ewch yn eich blaen gan gymryd gofal o'r traffig, tan i chi gyrraedd Llys y Coed (os ydych am ymweld ag Eglwys Sant Catwg ym Mhentyrch, mae hi 'mhellach lan Heol yr Eglwys).
13. Yn union ar ôl Llys y Coed trowch i'r llwybr ar y chwith. Dilynwch y llwybr, trwy glwyd fetel, nes cyrraedd Heol y Parc.
14. Trowch i'r dde ar hyd Heol y Parc heibio arwydd i bentref Pentyrch ac ar ôl rhyw 80 llath (73m) trowch i'r chwith trwy glwyd.
15. Dilynwch ffens ger tŷ ar y dde, ewch trwy glwyd a dringo ychydig risiau. Ewch yn eich blaen, gyda'r ffens ar y dde. Ewch yn syth 'mlaen trwy glwyd a dringo'r rhiw i gae, gyda'r ffens ar y dde. Ewch yn eich blaen yn syth (PEIDIWCH mynd trwy'r iet fetel). Mae 'na olygfa o Fro Morgannwg.
16. Ar ben draw y cae, ewch trwy iet i Heol Pant y Gored.
17. Croeswch gyda gofal ac ewch i'r chwith am rhyw 50 llath (45m). Trowch i fewn i gae trwy iet mochyn (y 1af o gyfres).
18. Ewch i lawr, gan wyro ychydig i'r chwith, a chyrraedd iet mochyn (2) ger y clawdd. Ewch trwy'r iet.
19. Ewch yn eich blaen, gyda'r clawdd ar y dde, ac ewch trwy iet mochyn arall (3).
20. Ewch yn eich blaen i lawr y rhiw, y clawdd yn dal ar y dde, trwy gae a iet mochyn arall (4).
21. Ewch lawr i'r chwith, trwy iet mochyn arall (5), yna'n syth yn eich blaen, gyda choed a ffens ar y dde.
22. Ewch i gornel y cae, a thrwy iet mochyn arall (6) y tu ôl i dai.
23. Mae'r llwybr yn gwyro rhywfaint i'r dde, yn cyrraedd postyn marcio ar y top, ac yna mae'n mynd lawr i gyrraedd iet mochyn arall (7). Ewch yn eich blaen, gyda rhedyn ar y naill ochr a'r llall, a chyrraedd iet mochyn (8) a ffordd.
24. Trowch i'r dde i Heol Pant y Gored - 'rydych 'nawr yn agosáu at Creigiau - ac ar ôl rhyw 50 llath (45m) arall fe welwch fwrdd gwybodaeth Wâc Cylchog Pentyrch. Ychydig cyn hyn mae 'na graig ger arwydd pentref Creigiau, gyda'r Maes Chwarae ar y dde.

25. Dilynwch y llwybr sydd â marc Sustrans arno rhwng y graig a'r ffordd.
26. Croeswch y fynedfa i'r Maes Chwarae a dilynwch y llwybr.
27. Croeswch y ffordd i lwybr arall, sydd hefyd wedi ei farcio gan Sustrans, ac sydd â chlogfeini ar bob ochr. Dilynwch y llwybr hwn.
28. Trowch i'r chwith wrth ffens werdd/lwyd uchel. Trowch i'r dde i Heol yr orsaf.
29. Cerddwch ar hyd Heol yr Orsaf i gyrraedd Creigiau Inn.
30. Croeswch Heol Caerdydd. Peidiwch a chymryd y llwybr ger y bocs teliffon.
31. Ewch i'r chwith am tua 12 llath (11m) ar hyd y pafin ac yna cymrwch y lôn ar y dde ar hyd llwybr tarmac i fynd i cul-de-sac Parc y Coed ar y chwith.
32. Ewch ar hyd y ffordd a chymerwch y troad cyntaf ar y dde. Os ydych am weld hen ffermdy Castell Mynach (Gradd 2* rheistredig) sydd â chysylltiad â'r pererinion, ewch yn eich blaen yn syth ac fe welwch chi e ar y dde Maes y Gollen, nes 'mlaen. Ewch i lawr Maes y Gollen i weld Castell Mynach. Wedyn ewch yn ôl i Barc-y-Coed i gario ymlaen.
33. Mae Parc y Coed yn diweddu wrth gylch troi, ond mae llwybr rhwng y ffensis ar y dde. Ewch ar hyd hwn i gyrraedd llain werdd. Ewch heibio'r pwll brogaed. Trowch i'r dde i Ffordd Dinefwr i gyrraedd Heol Tŷ Nant, sy'n rhedeg o'r Groesfaen i Creigiau.
34. Croeswch y ffordd a dilynwch y llwybr (llydan) gyferbyn.
35. Croeswch gamfa ac ewch trwy glwyd. Mae adfeilion Maes Mawr o'ch blaen. Ewch i'r dde ac ewch heibio'r adfeilion tuag at glwyd arall gydag arwydd Llwybr Cyhoeddus yn ei ymyl.
36. Ewch trwy'r glwyd a throwch i'r chwith i lwybr gwledig. Mae hwn yn mynd a chi heibio Teras Redgate. Ewch yn eich blaen i gyrraedd yr A4119 sy'n rhedeg drwy'r Groesfaen a ble mae'r rhan yma o'r daith yn dod i ben. Mae'r Dynevor Arms bron yn syth gyferbyn gydag Eglwys Dewi Sant ychydig ymhellach ar y chwith.

3 O'r Groesfaen i Lantrisant

Cychwyn: A4119, Y Groesfaen (cyfeiriad grid ST 070809, côd post CF72 8NW)

Diwedd: Bull Ring, Lantrisant (cyfeiriad grid ST 047834, côd post CF72 8EB)

Pellter: 3 milltir / 5cm

1. Os ydych yn cychwyn eich pererindod yma, efallai yr hoffech ymweld ag Eglwys Dewi Sant yn y Groesfaen er mwyn gweld yr hyn sy'n debyg o fod yn waelod y groes faen oedd yn nodi llwybr y pererinion i Benrhys, sydd erbyn hyn y tu allan i ddrws yr eglwys. Yna, o'r Dynevor Arms gerllaw, croeswch yr A4119 gyda gofal, i ymuno â'r llwybr ar ochr ddwyreiniol y briffordd.
2. Trowch i'r chwith. Ewch heibio Capel y Babell, Groesfaen ac aros ar y pafin gan fynd heibio dau droad i'r dde (Y Parc a Pen y Groes).
3. Trowch i'r dde ar ffordd sydd heb enw, tuag at dŷ. Cyn y tŷ, trowch i'r chwith ac ewch drwy iet mochyn i gae.
4. Dilynwch y llwybr ar hyd ochr y cae, yn agos i'r clawdd, ac ewch drwy'r iet mochyn yng nghornel y cae.
5. Ewch ymlaen drwy'r cae a chroeswch y gamfa.
6. Dilynwch y llwybr.
7. Ewch heibio i bwl ar y chwith i ymuno â llwybr a chroeswch nant. Trowch i'r chwith ar y gyffordd gerllaw mynedfa Fferm Llwynsaer a dilynwch y llwybr i gyffordd.
8. 'Rydych nawr yn agos i Groes Mwyndy lle y byddai Croes y Pererin wedi ei gosod.
9. Ar ôl tro siâp S, mae fforch yn y llwybr, sy'n creu ynys. Ewch ar y dde ac ymlaen ar hyd y llwybr sy'n arwain i gyffordd T. Trowch i'r dde, dros grid gwartheg ac i ffordd darmac. Fe fyddwch yn mynd heibio adfail.
10. Gadewch y ffordd pan fydd yn troi i'r dde ac ewch yn eich blaen ar lwybr porfa.
11. Ar ôl 200 llath (185m), a thrwy goedwig, ewch drwy glwyd i fewn i gae a throwch ar eich union i'r chwith. Dilynwch y llinell o goed ar y chwith ac at gamfa yng nghornel gwaelod y cae. Croeswch y gamfa.
12. Ewch yn eich blaen i lawr y llethr drwy'r cae a chroeswch y bont dros afon Clun.
13. O'r bont dilynwch y llwybr, trwy iet mochyn, a chroesi'r cae am tua 110 llath (100m) i iet mochyn arall. Fe ddowch allan ar Heol Rhiwsaeson.
14. Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y ffordd am rhyw 275 llath (250m) ac yna cymerwch y lôn ar chwith y dreif i dŷ o'r enw Little Foxes.
15. Dilynwch y llwybr hwn - lôn sy'n amgylchu ochr orllewinol Caerau, hen fryngaer o oes yr haearn (os ydych am ddringo i ben y fryngaer, lle mae'r golygfeydd i bob cyfeiriad yn wych, gwyrwch i'r dde a dringwch i dop y bryn).

16. Os nad ydych am fynd i'r fryngaer, ewch ar hyd y lôn tan i chi gyrraedd llwybr. Ewch i'r chwith rhwng ysgubor a'r ffermdy (Gwern y Moel Uchaf).
17. Mae'r llwybr yn lledu ac yn troi yn ffordd. Ewch i'r chwith ar hyd y ffordd sy'n croesi'r A473.
18. Yn union wedi'r bont (gyda'r arwydd Cross Inn a Llantrisant) trowch i'r chwith ar hyd y llwybr.
19. Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr Cymuned hwn.
20. Yn union ar ôl y bwa o dan y lein rheilffordd segur, trowch i'r dde ac ewch i fyny'r llethr, gan anwybyddu'r llwybr newydd ar y chwith. Ewch drwy'r iet mochyn a dilynwch y llwybr sy'n gwyro i'r chwith. Croeswch yr agoriad i drac sy'n dod o'r dde ac ewch yn eich blaen i fyny'r llethr. Mae'r llwybr yn gwyro i'r dde ac yn dal i ddringo. Ar dop y rhiw, ewch drwy iet mochyn a dilynwch y llwybr i'r chwith tuag at Lantrisant.
21. Mae'r llwybr yn ymuno a'r ffordd (Erw Hir) ger arwydd Ridgeway Walk.
22. Ewch i'r chwith ac ewch yn eich blaen tan i chi gyrraedd cyffordd T lle mae'r ffordd (High Street) yn mynd tuag at yr Hen Lantrisant a thu hwnt.
23. Croeswch y ffordd yn ofalus, trowch i'r dde ac ar ôl rhyw 20 llath (18m) ewch i'r chwith i fyny rhai stepiau.
24. Dilynwch y llwybr drwy iet mochyn tan i chi gyrraedd y rheiliau wrth odre Castell Lantrisant. Dringwch y grisiau ar y dde. 'Rydych nawr ar y Castle Green, gydag adfail Twr y Gigfran ar y chwith.
25. Dilynwch y llwybr a chroeswch y llain werdd gan basio'r stociau. Mae hen Neuadd y Dre ar y dde.
26. Ewch heibio Neuadd y Dre a throwch i'r dde i George Street, stryd o wyneb cobls, ac ewch yn eich blaen i lawr y rhiw i'r Model House a cherflun William Price yn y Bull Ring.

4 Llantrisant i Donyrefail

Cychwyn: Bull Ring, Llantrisant (cyfeiriad grid ST 047834, côd post CF72 8EB)

Diwedd: Concorde Drive, Tonyrefail (cyfeiriad grid ST 019788, côd post CF35 8NE)

Pellter: 5 milltir / 8cm

N.B Mae problemau dros dro gyda'r hen trac reilffordd.

Ar Gam 8 parhauwch ar hyd y lôn os gwelwch yn dda.

Yn y pen draw fe fyddwch yn weld un slab gerrig yn y wal am Edward II ger Pant y Brad

Neidiwch i'r Gam 13 a chariwch ymlaen.

1. O gerflun William Price yn y Bull Ring ewch i'r chwith a chroeswch Stryd yr Alarch.
2. Ewch yn eich blaen i lawr y rhiw ar hyd Heol y Sarn i gyrraedd comin Llantrisant a chroeswch grid gwartheg.
3. Cymrwch y fforch ar y dde (ffordd fetel gul) i groesi'r comin. Ewch ymlaen am ychydig dros filltir (1.8cm) nes cyrraedd hen faen sy'n nodi ffin ar y chwith.
4. Trowch i'r chwith dros y bont a chroeswch y nant (neu, i osgoi'r nant, peidiwch troi i'r chwith wrth yr hen faen. Yn hytrach, daliwch i fynd ar hyd y ffordd nes i chi gyrraedd y cyffordd ger Capel Annibynwyr Castellau. Trowch i'r chwith i Heol Ddu ac ail-ymuno â llwybr y daith wrth bwynt 6). Ewch yn syth ymlaen ar hyd y llwybr nes i chi gyrraedd peilon, ac ewch yn eich blaen i gornel y cae. Trowch i'r dde a dilynwch ffin y cae gan ddringo tipyn bach.
5. Pan ddaw'r cyfle, trowch i'r chwith trwy glwyd a chroeswch y cae tuag at glwyd arall (mae'r ardal yma yn cael ei datblygu, ac felly fe allai safle'r ffensys a'r clwydi fod yn wahanol). Ewch trwy'r glwyd a chyda ffens bren ar eich chwith, ewch yn eich blaen nes i chi gyrraedd iet yng nghornel chwith y cae. Fe ddowch allan i ffordd wledig.
6. Trowch i'r chwith i Heol Ddu gan gymryd gofal o'r traffig.
7. Ewch heibio tafarn y Countryman ar y chwith.
8. Ar ôl rhyw 220 llath (200m), ewch i'r dde ar hyd y lôn sy wedi ei marcio fel Fferm Treferig Cottage a Fferm Treferig Isha. Treferig oedd safle Tŷ Cwrdd y Crynwyr yn y 19G. Ewch ar hyd y lôn at bont garreg.
9. Ewch dros y bont ac yna'n syth tros gamfa ar y chwith. Peidiwch cymryd y llwybr ar y chwith y tu hwnt i'r gamfa.
10. Ymunwch â hen drac rheilffordd ar lan Nant Muchudd ac ewch ar ei hyd tan i chi gyrraedd ffordd. Trowch i'r chwith.
11. Ar ôl rhyw chwarter milltir (400m), croeswch gamfa sydd ger iet ar y dde. Trowch ar eich union i'r chwith a dilynwch y llwybr, gyda'r coed ar eich chwith. Croeswch lôn (mae na gamfa ar bob ochr) ac ewch yn eich blaen ar hyd llwybr grafel. Mae Oaklands ar y chwith.
12. Croeswch gamfa arall sydd ger iet ac ewch yn eich blaen i glwyd arall, lle rych chi'n cwrdd â Heol Llantrisant. Yn union ar y chwith mae maen carreg, gyda'r dyddiad 1909 arno. Dyma'r man lle, yn ôl yr hanes, y cafodd y Brenin Iorweth 11 ei ddal yn 1326.

13. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd i bentref Pant y Brad.
14. Ar ôl mynd heibio tri thy mawr ar y dde ar gwr y pentref, trowch i'r dde ar hyd llwybr. Ewch yn eich blaen dros y nant ac ewch drwy gatiau dwbwl tuag at Fferm Treboeth.
15. Ewch heibio tŷ mawr ar y dde. Heibio iet y tu ôl i'r tŷ, a chroeswch bont dros nant ac ewch trwy glwyd arall. Trowch i'r dde lan y rhiw.
16. Ar ôl tua 30 llath (27m) trowch i'r chwith dros gamfa. Dilynwch y llwybr i'r diwedd, gan fynd trwy iet mochyn werdd.
17. Ewch i'r dde ac fe ddowch yn fuan at llwybr wedi ei balmantu. Gyda'r rheiliau gwyrdd ar y dde, ewch ar hyd y llwybr hwn, i fyny'r grisiau. Ar y gyffordd, ewch lan y rhiw gan ddilyn y ffordd at fencyn porfa ar y dde ar ôl y tŷ ola.
18. Os ydych am aros yn Nhonyrefail, ewch ymlaen ar hyd Investiture Place (sy'n troi yn Concorde Drive) i'r ffordd i fysis. I gyrraedd canol y dre, cerddwch lawr y rhiw. Mae'r tro cynta ar y chwith yn mynd â chi i ffordd i gerddwyr sy'n arwain at y Stryd Fawr a chanol y dref.

5 Tonyrefail i Dinas

Cychwyn: Concorde Drive, Tonyrefail (cyfeiriad grid ST 019788, côd post CF35 8NE)

Diwedd: Gorsaf Dinas Rhondda (cyfeiriad grid ST 006919, côd post CF40 2PJ)

Pellter: 3 milltir / 5cm

1. Dringwch fencyn porfa ar ochr ogleddol Concorde Drive 'chydig cyn rhes o dai (gyda'r arwydd 4-6 Concorde Drive) ac ewch trwy glwyd fetel werdd yn y ffens.
2. Ymunwch â'r llwybr tarmac ac ewch i'r dde. Dilynwch hwn wrth iddo wyro i'r chwith am ryw 350 llath (320m) tan i chi gyrraedd llwybr sy'n mynd i'r chwith. Ewch yn eich blaen ar hwn, i gyfeiriad y gogledd orllewin, tan i chi gwrdd â llwybr arall sy'n mynd i'r dde. Fe welwch dai gwyn yn Trebanog yn y pellter.
3. Dilynwch y llwybr hwn, gan gymryd yr un ar y dde ble mae'r llwybr yn fforchio. Dilynwch hwn tan iddo ddechrau dringo i'r dde. Yn y fan yma ewch i'r chwith ar hyd llwybr culach i gyrraedd diwedd cul-de-sac a thai Pen y Dre. Yma, bron gyferbyn, fe welwch chi Ganolfan Gymunedol Waun Wen.
4. Os nad ydych am fynd i fewn i'r ganolfan, trowch i'r chwith, heibio'r siop gwerthu popeth a dilynwch Heol Rhiwgarn i lawr i'r A4233 a'r Trebanog Arms (os ewch i i'r Ganolfan, trowch i'r dde i gyrraedd yr A4233).

5. Croeswch y briffordd ac ewch yn eich blaen ar hyd Brooks Terrace. Ar ôl rhyw 200 llath (180m), throwch i'r dde ger gorsaf bysiau, ac i fyny Trem y Glyn.
6. Yna cymerwch y troad cyntaf ar y chwith ac ewch yn syth lan i'r Comin. Cadwch at y prif lwybr gan anwybyddu'r un sy'n fforchio lawr i'r dde.
7. Croeswch y ffens trwy fynd dros y gamfa, sy ar y chwith i glwyd ac ewch i'r dde lawr y rhiw am rhyw 85 llath (80m). Ewch dros y gamfa sy'n union o'ch blaen.
8. O'r fan yma gallwch weld yn y pellter tua'r gogledd, bostyn ar dop y bryn. Anelwch at hwnnw. Ewch yn eich blaen i lawr, croeswch gwrs dwr a dringwch y llethr i gyfeiriad y postyn.
9. Pan gyrhaeddwch y postyn, fe welwch Dinas a mynwent fawr ar y llethr o'ch blaen. Gwyrwch i'r chwith ac ewch yn eich blaen. Mae ffens o'ch blaen. Ewch lawr tuag at y ffens gan aros i'r dde ohoni. (er bydd raid i chi i fynd ymhellach i'r dde am dipyn bach i osgoi'r rhedyn.)
10. Ewch dros y gamfa i ymuno a'r lôn sy wedi ei suddo, a dilynwch hon, gan fynd trwy glwyd ar y ffordd i lawr. Byddwch yn mynd heibio i adfail a chychod gwenyn ar y chwith.
11. Ar waelod y rhiw, dilynwch y llwybr sy'n troi i'r chwith, gan groesi nant tan i chi gyrraedd iet, gyda'r prif lwybr yn dod o'r chwith. Ewch yn syth yn eich blaen yma. Mae'r llwybr yn mynd heibio tyddyn a hen adeiladau fferm ac yn cyrraedd Heol Graig Ddu.
12. Ar ôl rhyw chwarter milltir (400m) mae'r ffordd yn fforchio. Fe allwch gymryd y ffordd i'r dde neu ar hyd lôn fer trwy goed i gyrraedd A4058 Heol Dinas, neu gallwch ddal i fynd yn syth ymlaen i gyrraedd yr heol.
13. Throwch i'r chwith, croeswch y brif ffordd a mynd lawr y grisiau ar ôl bloc o fflatiau. Ewch i'r chwith gan ddilyn y llwybr sydd â'r afon ar y dde.
14. Pan ddowch chi at y ffordd, throwch i'r dde a chroesi pont dros yr afon i Drealaw, gan gymryd gofal o'r traffig. Mae gorsaf Dinas ar y dde yn union ar ôl y bont.

6 Dinas i Benrhys

Cychwyn: Gorsaf Dinas Rhondda (cyfeiriad grid ST 0069119, côd post CF40 2PJ)

Diwedd: Cerflun Arglwyddes Penrhys (cyfeiriad grid ST 002946, côd post: CF43 3PT)

Pellter: 2.5 milltir / 4cm

1. Os ydych yn cychwyn o Orsaf Dinas, trowch i'r chwith i gyrraedd y bont. Ewch i fyny'r llwybr i'r dde o Westy Tŷ Lily Mia (gyferbyn â'r bont dros yr afon). Mae'r llwybr yn troi'n stepiau ac yn arwain i ffordd (Bryn Dinas View). Ewch yn syth yn eich blaen i briffordd.
2. Croeswch y briffordd (A4058, Heol Brithweunydd) ac ewch yn eich blaen lan y rhiw ar hyd Nile Road. Ar ôl rhyw 50 llath (45m) ewch heibio Park Stores ar y chwith. Ar y top fe welwch glwydi Parc y Garth.
3. Yn hytrach na mynd i fewn i'r parc cymerwch y lôn ar y dde (wedi ei nodi fel Garth Farm Private Road) a dilynwch hi i fyny o gwmpas y parc, gyda'r ffens werdd ar eich chwith.
4. Wrth y gyffordd, ewch yn syth i fyny'r grisiau ar lwybr cul iawn i'r chwith o fyngalow Tyddwyn. Ewch dros y gamfa i gae ac ewch yn eich blaen lan y rhiw gyda'r wal ar eich chwith.
5. Ar dop y cae ar y chwith ewch dros gamfa a dilynwch y llwybr i'r dde o amgylch ymyl y cwrs golff. Yn fuan ar ôl mynd heibio i fast ar y dde, fe fyddwch yn cwrdd â llwybr lletach. Mae'r dringo nawr i gyd y tu ôl i chi!
6. Ewch i'r chwith i lwybr hen ffordd y plwy. Ar y dde fe welwch hen domen slag Old Smokey ger Tylorstown. Mae'n cael ei alw hefyd yn Dip Llanwonno neu dip Tylorstown.
7. Ar ôl i chi ddilyn y llwybr ar hyd y grib am rhyw 700 llath (650m) – mae e yn ymyl cwrs golf, felly cadwch olwg ar beli yn hedfan o gwmpas! – byddwch yn mynd heibio i bwynt triongl ar y dde. Mae hwn yn dangos eich bod 357 llath (327m) uwchben lefel y môr. Mae golygfeydd gwych i'r chwith, yn edrych dros Llwynypia a thu hwnt, ac yn ôl tuag at Dinas a'r llwybr 'rych chi wedi dod ar ei hyd.
8. Yn y pellter gallwch weld Penrhys, gyda cherflun y Forwyn Fair yn y blaen. Gyda sbienddrych mae'n bosib i chi weld top y ffynnon sanctaidd 'chydig i lawr i'r chwith. Ar ôl rhyw filltir (1.6cm) mae'r llwybr yn fforchio. Ewch i'r dde, ar hyd y llwybr porfa i gyrraedd y cerflun.
9. I fynd i'r ffynnon – Ffynnon Fair – ewch lawr o'r cerflun, heibio amffitheatr sydd mewn hanner cylch ac wedi ei cherfio i ochr y llethr. Pan ddowch i ffordd, croeswch hi, a dilynwch y llwybr (sy ag arwydd arni) i lawr tan i chi gyrraedd llwybr arall. Dilynwch hwn i'r ffynnon.
10. I fynd i fewn i stad Penrhys, lle mae na siop, a siop bysgod a sglodion a chaffi cymuned yn Eglwys Undebol Llanfair (sy' ddim ar agor bob dydd), croeswch y gylchfan ac ewch ar hyd y llwybr lan y rhiw ac fe gyrhaeddwch y cyfleusterau cymunedol ar y dde. Mae gwahoddiad i bob "pererin" i fynd i fewn i'r eglwys os ydi hi ar agor, i gael hoe fach. Pam gyrhaeddwch chi gerflun y Forwyn Fair ac edmygu'r golygfeydd, efallai y byddwch chi am fynd i'r toiled. Os gerddwch chi lan y rhiw i'r ystad fe ddowch chi o hyd i siop Woody's. Os ofynnwch chi yn y siop, fe fyddan' nhw yn cysylltu ag Eglwys Llanfair sy' ond rhyw daflad carreg i ffwrdd, ac fe fydd rhywun yn agor cyfleusterau'r eglwys i chi.

Gyda diolch i Janet Sully a phawb sydd wedi cyfrannu i fapio'r daith.